

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at dri o'n haelodau sydd yn Ysbyty Glan Clwyd – Arthur Williams (Cefn Meiriadog), Doreen Evans (Tanyfron) a Heulwen Roberts (Henllan). Cyflwynwn hwy yn dyner iawn i ofal Duw, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau.
- Mae Rhys Williams (Hiraethog) hefyd yn disgwyl mynd i'r ysbyty y penwythnos hwn i gael llawdriniaeth. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-helynt iddo ac y caiff yntau adferiad iechyd buan iawn.
- Cofiw'n am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Bu iddynt gydnabod cyfraniad gwerthfawr Mr Gaerwyn Jones (Tanyfron) a Mr Trefor Williams (Peniel) yn ystod cyfarfodydd Cymdeithasfa'r Gogledd a gynhaliwyd yn Llanfairpwll yr wythnos hon. Diolchwn ninnau hefyd yn gywir iawn i'r ddau sydd wedi gwasanaethu fel blaenoriaid yn eu heglwysi ers 40 mlynedd! Dymunwn fendith Duw arnoch.
- Llongyfarchiadau i Dyfan Jones (Groes) ar ei ddyweddiad â Hayley Scott o ardal King's Lynn. Llongyfarchiadau hefyd i Emlyn Davies (Tanyfron) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar! Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd

Mae llawer o'r chwiorydd yn gweithio'n ddiwyd iawn yn eu heglwysi, yn yr Ofalaeth ac yn yr Henaduriaeth, a phob blwyddyn, fe wneir casgliad arbennig sy'n gwneud hi'n bosibl i Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru gyfrannu'n hael at waith Gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a Phrosiectau gartref a thramor. Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwys Bro Aled eleni wedi cyfrannu £526 tuag at y casgliad arbennig hwn. Diolch i chi am eich haelioni.

I ddod

- **Darlith ar William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad** yn Llansannan, nos Iau Dyrchafael, sef Mai 17eg am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.
- **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuencid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mai 23ain yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug am 7.00. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Ebrill 2012

"Gair disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru heddiw,
tyrd Ysbryd Glân, rho dy dân i ni."

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Mari Jones a'i Beibl! Merch ifanc yn cynilo ei harian prin i brynu Beibl gan Thomas Charles yn y Bala ac yn cerdded 28 milltir o'i chartref yn Llanfihangel i'r Bala dim ond i gael ei siomi ar y cychwyn – doedd dim Beibl ar gael iddi. Thomas Charles wedyn, o sylweddoli maint ei haberth a'i hymdrech yn rhoi llety iddi a Beibl yn y man, a hithau'n mynd adre dan redeg yn ei llawenydd mawr.

Dyma'r hanes a ysbrydolodd sefydlu'r Feibl Gymdeithas a dyma oedd nod y Gymdeithas o'r cychwyn – 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd'.

Pa mor ffit ydych chi? Tybed faint ohonoch a fyddai awydd ymuno yn y marathon sy'n mynd i gael ei rhedeg ar benwythnos Mehefin y ged eleni? Dilyn ôl troed Mari Jones yw'r nod a diweddu yn y Bala. Mae hi'n flwyddyn y gemau Olympaidd ac y mae'r syniad o gario torch sydd ar dân ar draws y byd yn syniad 'da ni yn ei gysylltu hefo'r Gemau. Pa dorch, pa fflam sydd wedi goleuo'r byd yn fwy na'r Beibl? Y syniad felly ydi cael nifer o redwyr i redeg cymalau ar hyd taith Mari Jones, a'u bod yn cario fersiynau gwahanol o'r Beibl hefo nhw gan eu trosglwyddo i redwyr eraill fel baton ras gyfnewid.

Byddwn yn cychwyn hefo Beibl Hebraeg, Groeg, Lladin, ac yna cyfieithiad William Salesbury i'r Gymraeg, Cyfieithiad yr Esgob Morgan, ymlaen at y Beibl Cymraeg Newydd ac yna Beibl.net ar ffôn symudol!

Bydd angen nifer i redeg yn ôl eu gallu, felly dyma roi digon o rybudd i chi ddechrau ymarfer neu rhoi nod newydd i'r ymarfer sydd eisoes ar y gweill!

Beth amdani?! Bydd y Feibl Gymdeithas yn gefn i'r diwrnod a gobeithio y medrwn drefnu oedfa o fawl ger Eglwys Llanycil sydd yn eiddo i'r Gymdeithas er mwyn gweddio y bydd y gair yn dod yn oleuni i Gymru eto ac y bydd y gwaith o gael 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd' yn dod yn wir.

I'r rhai na fyddant yn rhedeg, efallai y medrwn ni gael cerdded neu fynd ar gadair olwyn o amgylch rhan o'r llyn ac ymuno hefo'r rhedwyr wedi iddynt gyrraedd a chael cyd-addoli.

Rhowch wybod i un ohonom os ydych â diddordeb – hanner milltir, milltir neu ddwy neu'r 28 milltir cyfan!

Diolchwn i Dduw am ei air heddiw, diolchwn iddo am ein cynnal trwy ei air a'i Ysbryd Glân. Ymhob cyflwr, rhedwn yr yrfa gan edrych ar Iesu, Pen Tywysog a Pherffeithydd ein ffydd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Mawrth
- Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan heno.
 - Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. [*Ceisiadau gweddi i Hafwen (813445) neu Celfyn (550274), os gwelwch yn dda.*]
- Mercher
- Sasiwn Genhadol y Chwirydd** yn cyfarfod yng Nghapel Heol China, Llanidloes. Bydd Mrs Dilys Jones, Amwythig, yn annerch am 2.00, a'r Parchg Ddr Watcyn James yn annerch am 5.30.
 - Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
 - Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
 - Trafodaeth ar y thema "**Ymestyn Allan**" yn Ffestri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Y Parchg Athro Euros Wyn Jones fydd yn agor y drafodaeth. Croeso cynnes i bawb.
- Iau
- Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 4ydd-6ed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565.
- Gwener-Sul
- Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sadwrn
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Elinor yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa ym Mheniel am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.30 gyda chinio i ddilyn i godi arian tuag at y Sasiwn Genhadol. Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Groes.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf
- Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau